

Syr David Henshaw
Cadeirydd
Cyfoeth Naturiol Cymru

22 Tachwedd 2021

Annwyl Syr David,

Gollyngiadau carthion heb eu caniatáu

Mae'r mater o ollyngiadau carthion heb eu caniatáu gan gwmnïau dŵr ar ddwy ochr y ffin wedi bod yn destun dadl wleidyddol a chyhoeddus ddwys yn ystod y misoedd diwethaf.

Rydym yn gwybod fod Asiantaeth yr Amgylchedd ac Ofwat wedi lansio ymchwiliad i weithfeydd trin carthion, yn dilyn cyfaddefiad gan gwmnïau dŵr yn Lloegr y gallent fod yn rhyddhau gollyngiadau carthion heb eu caniatáu i afonydd a chyrsgiau dŵr.

Byddai'n ddefnyddiol pe gallech roi eglurhad ynghylch:

- a yw Cyfoeth Naturiol Cymru ac Ofwat yn bwriadu cynnal ymchwiliad tebyg i weithfeydd trin carthion yng Nghymru?
- os nad oes bwriad i gynnal ymchwiliad o'r fath, pam nad ydych chi'n ystyried bod ymchwiliad yn angenrheidiol.

Byddwn yn ddiolchgar o dderbyn ymateb gennych cyn gynted â phosibl, ac erbyn 6 Rhagfyr 2021 fan bellaf.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Jonson Cox CBE, Cadeirydd Ofwat.



Yn gywir,



Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd, Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.